CYFARFOD	Y CYNGOR
DYDDIAD	13 Rhagfyr, 2007
TEITL	Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd
PWRPAS	Cyflwyno Cynllun Cyfansawdd Drafft ar gyfer Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr Argymhelliad
AWDUR	Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Strategol Datblygu
ARWEINYDD PORTFFOLIO	Y Cynghorydd Richard Parry Hughes, Arweinydd Arweiniol Plant a Phobl Ifanc Y Cynghorydd Dafydd Iwan, Uwch Arweinydd Portffolio Datblygu Y Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd Portffolio Ysgolion

1. CEFNDIR

1.1. Mae copi o'r ddogfen "*Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd*" eisoes wedi'i chylchredeg i Aelodau'r Cyngor.

1.2. Dyma'r ddogfen sy'n cyflwyno'r achos dros ad-drefnu ysgolion cynradd Gwynedd.

1.3. Tafodwyd cynnwys y ddogfen yng nghyfarfod arbennig o Bwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc ar 25 Hydref, 2007.

1.4. Dyma oedd penderfyniad y Pwyllgor Craffu:

(a) Cyfleu i Fwrdd y Cyngor yn ei gyfarfod ar 20 Tachwedd, 2007 gymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc, mewn egwyddor, i nôd, amcanion a phrif strategaeth y Cynllun ac i sicrhau bod ymgynghoriad trylwyr yn digwydd gydag aelodau etholedig, penaethiaid/athrawon, rhieni a llywodraethwyr cyn gweithredu'r cynigion ar gyfer yr ysgolion hynny yng Nghategori A o'r Cynllun Cyfansawdd.

(b) Gofyn i'r Cyfarwyddwr Strategol Datblygu gyflwyno adroddiad terfynol ar y cynigion mewn perthynas ag ysgolion a restrir yng Nghategori A ym mis Mehefin/Gorffennaf 2008 yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

(c) Cymeradwyo i dderbyn, fel sail cynllunio, rhestr Categori B a C yn y Cynllun Cyfansawdd a chynnal y cyfnodau ymgynghori yn unol â'r amserlen a amlinellir yn yr adroddiad.

1.5. Trafodwyd cynnwys y ddogfen yng nghyfarfod y Bwrdd ar 20 Tachwedd, 2007.

1.6. Dyma oedd penderfyniad Bwrdd y Cyngor:

(a) Cymeradwyo mewn egwyddor, nôd, amcanion a phrif strategaeth y Cynllun a sicrhau bod ymgynghoriad trylwyr yn digwydd gydag Aelodau Etholedig, Penaethiaid/Athrawon, Rhieni a Llywodraethwyr cyn gweithredu'r cynigion ar gyfer yr ysgolion hynny yng Nghategori A o'r Cynllun Cyfansawdd.

(b) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Strategol Datblygu i gyflwyno adroddiad terfynol ar y cynigion mewn perthynas ag ysgolion a restrir yng Nghategori A ym mis Mehefin/Gorffennaf 2008 yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

(c) Cymeradwyo, fel sail cynllunio, rhestr Categori B a C yn y Cynllun Cyfansawdd, a chynnal y cyfnodau ymgynghori yn unol â'r amserlen a amlinellir yn yr adroddiad.

(ch) Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Strategol Datblygu, mewn ymgynghoriad â'r Arweinyddion Portffolio perthnasol, i roi cynllun ymgynghori manwl yn ei le fydd yn sicrhau amser digonol ar gyfer cynnal y drafodaeth gyhoeddus ar strategaeth y cynllun a'r cynigion unigol - gan adrodd ar y mater i gyfarfod o'r Cyngor ar y 13 Ragfyr, 2007.

(d) Awdurdodi ymgymryd ag asesiad ardrawiad ieithyddol a chymdeithasol ymhob ardal i'w gynnwys fel rhan o'r adroddiad.

2. GWYBODAETH YCHWANEGOL I'R CYNGOR LLAWN

2.1. Roedd Aelodau'r Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc a Bwrdd y Cyngor yn awyddus i gael gwybodaeth ychwanegol ar rai agweddau o'r Cynllun.

2.2. Er mwyn ymateb i sylwadau rhai o Aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd, cyflwynwn - yn yr Atodiad i'r adroddiad hwn - gyfres o bapurau o dan y penawdau canlynol:

- Cofnodion a Phenderfyniad y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc (25 Hydref, 2007) [*Papur 1*];
- Cofnodion a Phenderfyniad Bwrdd y Cyngor (20 Tachwedd, 2007) [*Papur 2*];
- Manylion y Cynllun Ymgynghori Diwygiedig [*Papur 3*];
- Manylion y Cynllun Cyfansawdd Diwygiedig [*Papur 4*];
- Adroddiad pellach ar Ysgolion Ffederal gan Gareth Davies Jones, Cyn Arolygydd Ei Mawrhydi ac Ymgynghorydd Annibynnol [*Papur 5*];
- Atebion i Gwestiynau a Ofynnir yn Aml [*Papur 6*];
- Briff er mwyn Asesu Effaith Ieithyddol [*Papur 7*].

2.3. Y newid mwyaf arwyddocaol ers y Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc yw'r bwriad i ymestyn y cyfnod ymgynghori. Bydd gweithredu'r Cynllun Ymgynghori Diwygiedig yn rhoi amser digonol i gymunedau gyflwyno sylwadau, barn a syniadau pellach a bydd yn dylanwadu ar yr amserlen wreiddiol o gau rhai ysgolion a sefydlu Ysgolion Ffederal. Cyflwynir gwybodaeth ychwanegol ar hyn yn y Cynllun Cyfansawdd yn yr Atodiad.

2.4. Mae'r camau y bwriedir eu cymryd ar gyfer ymgynghori ar y ddogfen a'i chynigion wedi eu hamlinellu'n glir yn yr Atodiad.

2.5. Cyflwynir isod yr amserlen o ran adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn er mwyn gwneud penderfyniadau terfynol ar y cynigion:

Mai / Mehefin 2008 – Y Cyngor yn ystyried canlyniadau ymgynghori cyffredinol ar nôd, amcanion a strategaeth y Cynllun Drafft, cyn eu cymeradwyo'n derfynol;

Medi / Hydref 2008 – Y Cyngor Llawn yn ystyried canlyniadau'r ymgynghori ar gynigion Categori A y Cynllun, ac os oes cefnogaeth, cyfarwyddo'r Gwasanaeth i gyhoeddi rhybuddion statudol o fwriad i gau'r ysgolion perthnasol. ***Dyma'r cyfarfod fydd yn gwneud penderfyniad terfynol y Cyngor ar ysgolion Categori A***.

Medi / Hydref 2009 – Y Cyngor Llawn yn ystyried canlyniadau'r ymgynghori ar gynigon Categori B y Cynllun, ac os oes cefnogaeth, cyfarwyddo'r Gwasanaeth i gyhoeddi rhybuddion statudol perthnasol. ***Dyma'r cyfarfod fydd yn gwneud penderfyniad terfynol y Cyngor ar Ysgolion Categori B***.

Medi / Hydref 2010 – Y Cyngor Llawn yn ystyried canlyniadau'r ymgynghori ar gynigion Categori C1 y Cynllun, ac os oes cefnogaeth, cyfarwyddo'r Gwasanaeth i gyhoeddi rhybuddion statudol perthnasol. ***Dyma'r cyfarfod fydd yn gwneud penderfyniad terfynol y Cyngor ar Ysgolion Categori C1***.

Medi / Hydref 2011 – Y Cyngor Llawn yn ystyried canlyniadau'r ymgynghori ar gynigon Categori C2 y Cynllun, ac os oes cefnogaeth, cyfarwyddo'r Gwasanaeth i gyhoeddi rhybuddion statudol perthnasol. ***Dyma'r cyfarfod fydd yn gwneud penderfyniad terfynol y Cyngor ar Ysgolion Categori C2***.

Medi / Hydref 2012 – Y Cyngor Llawn yn ystyried canlyniadau'r ymgynghori ar gynigion Categori C3 y Cynllun, ac os oes cefnogaeth, cyfarwyddo'r Gwasanaeth i gyhoeddi rhybuddion statudol perthnasol. ***Dyma'r cyfarfod fydd yn gwneud penderfyniad terfynol y Cyngor ar Ysgolion Categori C3***.

2.6. Y bwriad yn syml, yw gofyn am hawl y Cyngor Llawn yn ei gyfarfod heddiw i gychwyn y broses ymgynghori ar gynnwys y ddogfen a'i chynigion - a hynny yn unol â'r rhaglen ymgynghori yn yr Atodiad.

2.7. Nid oes unrhyw benderfyniad yn cael ei wneud heddiw fydd yn golygu cau ysgol, sefydlu Ysgol Ffederal neu Ysgol Ardal. Gofyn am gyfle i gynnal trafodaeth agored a chyhoeddus a wneir, cyn penderfynu'n derfynol ar drefniant newydd i Ysgolion Cynradd y Sir i'r dyfodol.

3. ARGYMHELLIAD

- I gymeradwyo cyfnod o ymgynghori ar y ddogfen drafft "*Ad-drefnu Ysgolion Cynradd y Sir er Lles Addysg Holl Blant Gwynedd*";
- I gymeradwyo'r rhaglen ymgynghori fel y'i cyflwynir yn y "Cynllun Ymgynghori Diwygiedig" yn yr Atodiad;
- I gefnogi'r bwriad i ymgymryd ag asesiad ardrawiad ieithyddol a chymdeithasol o weithredu cynigion y ddogfen.

I.T. Jones
Cyfarwyddwr Strategol Datblygu
ITJ/ls/4.12.07